Senedd Cymru
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Craffu ar Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru
CCERA(5) NDF(v2) 07
Ymateb gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Welsh Parliament
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee
National Development Framework for Wales
CCERA(5) NDF(v2) 07
Evidence from National Park Authorities

**1. Cyflwyniad**

**2.** A hwythau'n cwmpasu 20% o Gymru - mae ein 3 Pharc Cenedlaethol ymhlith ein dynodiadau cynllunio gofodol hynaf.

**3.** Dyfodol Cymru - Nid yw Cynllun Cenedlaethol 2040 yn dangos sut mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ei hun ar gyfer tirwedd ddynodedig (ar ffurf *'Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer AHNE a Pharciau Cenedlaethol'*, 2018) wedi'u hymgorffori yn y fframwaith. Nid yw'n glir chwaith o adroddiad ymgynghori Llywodraeth Cymru[1] a yw'r materion a godwyd gennym yn ystod y broses wedi'u hystyried – ac ni chyfeirrir at hyn yn adroddiad Arcadis (ymgynghorwyr a benodwyd gan Lywodraeth Cymru). Nid yw'n ymddangos ychwaith fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw sylw i Gynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol, sy'n gynlluniau o arwyddocâd cenedlaethol.[2]

**4.** Mae angen eglurder ar sut y gall Llywodraeth Cymru ddynodi parth twf rhanbarthol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu ddarpar *Ddatblygiad Arwyddocaol yn Eryri* heb ystyried y polisi uchod yn llawn neu heb gymhwyso'r prawf Datblygiad Mawr.

**5.** Mae Cynllun Cenedlaethol 2040 yn cyfeirio at Gynlluniau Datblygu Strategol trwy'r ddogfen. Mae pryderon ynghylch rôl a phwrpas APCau yn y Cynlluniau Datblygu Strategol. Fel Awdurdodau pwrpas arbennig, mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APC) yn croesawu partneriaeth ofodol o ddiddordeb cenedlaethol a lleol lle mae y sawl a benodir gan Lywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd gydag aelodau a benodir gan Awdurdodau Unedol er budd cenedlaethol a lleol.

**6.** Ni ddylai'r newidiadau a gynigiwn i helpu i gyflawni dibenion statudol y Parc Cenedlaethol ac amddiffyn eu rhinweddau arbennig ofyn am newidiadau cyfanwerthol i *Cymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol 2040.* Mae'r cyfeiriad clir at ragdybiaeth yn erbyn datblygiadau ar raddfa fawr o fewn Parciau Cenedlaethol yn bwysig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cynghori o'r blaen bod hyn yn wir ac wedi awgrymu mai dyma'r rheswm dros hepgor polisi Parc Cenedlaethol.

**7.** Mae ein pryderon allweddol yn canolbwyntio at chwe maes allweddol fel y nodir ym mhwyntiau A-F (y mae llawer ohonynt yn rhyng-gysylltiedig), isod.

## A. Polisi Penodol ar gyfer Parciau Cenedlaethol

**8.** Codwyd y mater hwn yn ein hymateb ymgynghori gwreiddiol.

**9.** Fel dynodiadau cenedlaethol a wnaed gan Orchymyn y Llywodraeth, o arwyddocâd rhyngwladol ystyrir bod yn rhaid i *Cymru'r Dyfodol 2040*, gynnwys polisi penodol, neu o leiaf rhywfaint o eiriad, i gydnabod arwyddocâd Parciau Cenedlaethol, eu pwrpas, y buddion sydd iddynt ar gyfer Llesiant a phwysigrwydd eu hamddiffyn a'u gwella.

***10.*** Nid yw datganiad polisi Llywodraeth Cymru ei hun ar Barciau Cenedlaethol ac AHNE (‘*Gwerthfawr a Chydnerth - Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o*

---

[1] Ar gael yn: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-09/draft-national-development-framework-consultation-report.pdf

[2] https://www.pembrokeshirecoast.wales/wp-content/uploads/2019/05/National-Parks-Management-Plans-Guideance-English-2007.pdf

*Harddwch Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, 2018*) yn cael ei ystyried yn y '*Diweddariad o'r Compendiwm' Tystiolaeth* (Medi 2020) a helpodd i lywio'r iteriad diweddaraf o'r FfDC, ac ni chyfeirir ato yn y rhestr o ddogfennau polisi a hysbysodd yr FfDC ar dudalen 10 yr FfDC (Medi 20). Ni chyfeirir ato chwaith yng Ngwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig Llywodraeth Cymru (GCI) - a baratowyd gan yr ymgynghorwyr Arcadis (Gweler Atodiad A yr GCI).

**11.** Mae tudalen 14 o *Cymru'r Dyfodol 2040* yn nodi "Mae ganddi bolisïau ar faterion lle mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried yn flaenoriaeth genedlaethol ar hyn o bryd, neu faterion sy'n ofodol iawn ac sydd angen arweinyddiaeth genedlaethol." Mae yna bolisïau sy'n cyfeirio at 'Ardaloedd Twf Cenedlaethol', Lleiniau Gwyrdd a Choedwigoedd Cenedlaethol. Mae polisi penodol ar Barciau Cenedlaethol (sy'n ffurfio 20% o arwynebedd tir y genedl), yn bwysig o ystyried y materion o arwyddocâd cenedlaethol y mae'r Parciau Cenedlaethol yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae yna sawl rheswm am hyn.

**12.** Mae'r pwysau ar Barciau Cenedlaethol mor uchel ag erioed. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau yn sgil datblygiadau amhriodol, tagfeydd, niferoedd digynsail o ymwelwyr, dibyniaeth ar y car preifat, problemau tai i enwi ond ychydig. Mae'r rheswm y ffurfiwyd Parciau Cenedlaethol yn y lle cyntaf yn dilyn yr 2il Ryfel Byd yr un mor berthnasol a phwysig ag erioed. Yn fwy nag erioed, mae bobl angen cael mynediad at dirweddau hardd, natur a threftadaeth ddiwylliannol er mwyn eu lles meddyliol a chorfforol. Pan laciwyd cyfyngiadau Covid-19 ym mis Mehefin hwn fe ddangoswyd hyn, wrth i bobl heidio i Barciau Cenedlaethol mewn niferoedd digynsail.

**13.** Wrth i'r pwysau hyn ar Barciau Cenedlaethol ddwysau, mae'r risg o ddatblygiad anghynaliadwy neu amhriodol yn cynyddu - boed yn dai anfforddiadwy, cynnydd mewn tai gosod gwyliau ar draul pobl leol, datblygiadau sy'n ddibynnol ar geir, problemau parcio ceir a thagfeydd cysylltiedig. Mae perygl hefyd, wrth inni gynllunio ar gyfer adferiad economaidd ôl-Covid, y bydd pwysau i annog datblygiad a allai erydu Rhinweddau Arbennig ein Parciau Cenedlaethol. Mae'r pwysau o'r mathau hyn yn digwydd ym mhob un o'r 3 Pharc Cenedlaethol yng Nghymru. Gwaethygir ein pryderon ymhellach gan y pwysau ychwanegol a ddaw yn sgil ein dynodiad trwy weithredu ar y cyd y Cynlluniau Datblygu Strategol. Am y rhesymau hyn y mae'r mater hwn yn codi. mae angen rhoi sylw iddo ar lefel genedlaethol yn y Cynllun Cenedlaethol yn ystod yr amseroedd digynsail hyn. Rhoddir mwy o fanylion hefyd yn ein hymateb ymgynghori gwreiddiol.

## <u>B.</u> Trafnidiaeth / Cludiant mewn Parciau Cenedlaethol

**14.** Mae yna lawer o ddatganiadau uchelgeisiol yn y Cynllun Cenedlaethol sy'n cyfeirio at yr angen i leihau dibyniaeth ar y car preifat, a'r amcan uchelgeisiol i greu cymdeithas sydd wedi'i datgarboneiddio.

**15.** Mae'n ymddangos y bydd y dyheadau hyn efallai'n canolbwyntio'n ddealladwy ar ardaloedd trefol, gyda llawer o gyfeiriad at systemau metro - er enghraifft mae Polisi 12 (Cysylltedd Rhanbarthol) yn cyfeirio at y cyfleoedd ar gyfer dwysedd uwch, defnydd cymysg a datblygiad di-gar o amgylch gorsafoedd metro.

**16.** Fodd bynnag, nid oes gan ardaloedd trefol y monopoli ar y broblem hon, mae trafnidiaeth yr un mor berthnasol i ardaloedd gwledig. Dros y blynyddoedd diwethaf mae pob un o'r 3 Pharc Cenedlaethol wedi profi tagfeydd sylweddol a chynyddol, meysydd parcio llawn, parcio anghyfreithlon a pheryglus a dibyniaeth bron yn llwyr ar y car preifat i gyrraedd ein mannau harddwch. Amlygwyd hyn bron yn wythnosol yn y

wasg a'r cyfryngau yr haf hwn, wrth i niferoedd digynsail gyrchu Parciau Cenedlaethol yn eu ceir. Nid yn unig y mae hyn yn ddrwg i'r amgylchedd a'r hinsawdd (a hyd yn oed yn ddrwg i'r economi), mae hefyd yn atal pobl heb gar rhag ymweld â Pharciau Cenedlaethol (ac fe ellir dadlau mai nhw yw'r bobl a fyddai'n elwa fwyaf ohonynt).

**17.** Unwaith eto mae angen cydnabyddiaeth a chefnogaeth i'w datrys trwy *Cymru'r Dyfodol 2040* i broblem mor sylweddol ond sydd â gwreiddiau dwfn, sy'n digwydd ar lefel genedlaethol yn ein tirweddau a ddynodwyd yn genedlaethol.

**18.** Bydd torri'r cylch hwn o ddibyniaeth ar geir yn ein Parciau Cenedlaethol yn broblem anodd ei datrys, a gellir dadlau ei bod yn anoddach i gyflawni hyn nag mewn ardaloedd trefol. Unwaith eto, am y rheswm hwn y dylid darparu cefnogaeth ar gyfer mynd i'r afael â hyn yn *Cymru'r Dyfodol 2040*.

**19.** Yn ddiweddar, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi ysgogi astudiaeth ar drafnidiaeth a pharcio, ond bydd hyn yn ymofyn am ddull gweithredu cydgysylltiedig a strategol sylweddol i helpu i gyflawni ei nodau uchelgeisiol. Byddai cefnogaeth trwy *Cymru'r Dyfodol 2040* yn mynd yn bell tuag at gyflawni'r nodau hyn ar draws ein holl dirweddau dynodedig.

**C.** **Tai mewn Parciau Cenedlaethol**

**20.** Codwyd y mater hwn yn ein hymateb ymgynghori gwreiddiol. Fodd bynnag, credwn fod angen mynd i'r afael â'r mater yn fanylach yn *Cymru'r Dyfodol 2040* i fynd i'r afael â'r mater hwn sy'n dwysáu ledled y wlad.

**21.** Mae'r FfDC yn nodi bod angen "canolbwyntio ar gynyddu darpariaeth cartrefi cymdeithasol a fforddiadwy…. Mae Llywodraeth Cymru yn targedu ei hymyriadau tai a chynllunio tuag at gyflawni'r nod hwn yng nghyd-destun ehangach cynyddu cyflenwad ac ymateb i wahanol anghenion, gan gynnwys ein cymdeithas sy'n heneiddio a newid yn yr hinsawdd."

**22.** Mae Parciau Cenedlaethol, yn enwedig yr ardaloedd prysuraf / pot mêl, yn wynebu pwysau tai sylweddol, sy'n creu heriau gwirioneddol wrth ddatblygu cymunedau cynaliadwy. Yn gyffredinol, mae Parciau Cenedlaethol wedi ceisio canolbwyntio eu datblygiadau tai tuag at angen lleol, ond mae hyn wedi dod o dan bwysau sylweddol yn ddiweddar yn enwedig gyda chynnydd y farchnad rhentu gwyliau fel AirBNB.

**23.** Er mwyn mynd i'r afael â'r problemau hyn, awgrymir y dylai fod gan *Cymru'r Dyfodol 2040* bolisi penodol ar gyfer 'tai sy'n deillio yn lleol' (nid tai fforddiadwy lleol yn unig) - a thrwy hynny helpu pobl leol nad ydynt yn dod o fewn y diffiniad caeth o dai 'fforddiadwy' ond yn ei chael hi'n anodd i gael mynediad at y farchnad dai agored. Byddai'r dull beiddgar hwn yn helpu cymunedau sydd bellach yn wynebu pwysau tai eithafol, ond dim ond gyda chefnogaeth mewn cynllun cenedlaethol a fyddai'n ymarferol.

**24.** Gellid cefnogi'r mater hwn hefyd trwy'r polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol y cyfeiriwyd ato uchod.

**D.** **Yr Iaith Gymraeg**

**25.** Yn gysylltiedig â'r uchod, mae dyheadau perthnasol i iaith Gymraeg ffyniannus a bywiog angen cefnogaeth bellach a chryfach gan amrywiol feysydd polisi yn yr FfDC. Fel y cyfeiriwyd ato uchod, mae nifer o gymunedau Cymraeg eu hiaith o dan bwysau

aruthrol, yn enwedig pwysau tai. Wrth i bobl symud i fannau harddwch i fyw neu ymddeol, prynu ail gartrefi neu ddefnyddio’r farchnad dai bresennol fwyfwy ar gyfer eu gosod ar gyfer gwyliau fel AirBNB, mae pobl leol yn cael eu heithrio o’r farchnad dai. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar lefel genedlaethol - a *Cymru'r Dyfodol 2040* fyddai'r mecanwaith delfrydol i gyflawni hyn.

**26.** Yn ogystal â thai priodol, bydd creu cyfleoedd cyflogaeth hefyd yn cynnal cymunedau. Mae'r ymateb cenedlaethol i Covid wedi gweld cynnydd sydyn yn yr y cyfleoedd cyflogaeth i weithio o gartref. Mae angen i gymunedau gwledig gael eu cefnogi gan seilwaith priodol i alluogi hyn, er mwyn cadw cymunedau ffyniannus amrywiol. Mae angen seilwaith fel band eang cyflym, 4G mewn lleoliadau gwledig a threfol.

## <u>E.</u> Lefelau Datblygu priodol mewn Parciau Cenedlaethol

**27.** Mae'r egwyddor o ganiatáu Datblygiad Mawr mewn Parciau Cenedlaethol yn ymofyn bod prawf penodol yn cael ei fodloni - ac mae *Cymru'r Dyfodol 2040* yn gwbl dawel ar y mater allweddol hwn. Unwaith eto, mae hyn yn codi materion tryloywder, - a allai arwain at ddryswch a mwy o ansicrwydd â'r broses (ac mae'n anochel bod ansicrwydd yn arwain at oedi). Cyfeirir at y Prawf Datblygiad Mawr yn y Diweddariad o Gompendiwm Tystiolaeth y FfDC - Medi 2020. Fodd bynnag, ni ddylid di-frio ystyriaeth polisi mor gritigol bwysig i bapur cefndir, ac mae diffyg tryloywder ynddo.

***28.*** Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi *“Mewn Parciau Cenedlaethol neu AHNE, mae ystyriaethau arbennig yn berthnasol i gynigion datblygu mawr sy'n fwy cenedlaethol na lleol eu cymeriad. Ni ddylai datblygiadau mawr ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol nac AHNE ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.”*

**29.** Yn ymwneud yn benodol â hyn, mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i fynd i'r afael â'r materion canlynol mewn perthynas â Datblygiad Mawr:

- *yr angen i'r datblygiad, o ran ystyriaethau cenedlaethol ac effaith ei ganiatáu neu ei wrthod ar yr economi leol;*
- *cost a chwmpas darparu'r datblygiad y tu allan i'r ardal ddynodedig neu ddiwallu'r angen amdano mewn rhyw ffordd arall; ac*
- *unrhyw effaith niweidiol ar yr amgylchedd a'r dirwedd, ac i ba raddau y gellid cymedroli a / neu liniaru hynny.*

**30.** Mae gan y polisi hwn ei sylfeini ym Mhrawf ‘Silkin sy’n nodi bod yn rhaid i ddatblygiad mawr mewn Parciau Cenedlaethol fodloni 3 phrif faen prawf, sef:

1. rhaid iddo fod er budd Cenedlaethol;
2. nid oes dewis arall ymarferol yn lle datblygu mewn Parc Cenedlaethol;
3. rhaid ei adeiladu mewn ffordd sy'n lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.

**31.** Credwn fod yr FfDC yn methu â mynd i'r afael â'r egwyddorion hyn o ran llywio cyfeiriad. Er enghraifft, rydym yn tynnu sylw'r Pwyllgorau at ddwy enghraifft o'r datgysylltiad polisi hwn (a) nodi Trawsfynydd fel safle posib ar gyfer Adweithydd Modiwlaidd Bach yn APCE a (b) dynodi Parth Twf Rhanbarthol o amgylch Aberhonddu o fewn APCBB.

### (a) Adweithydd Modiwlaidd Bach Trawsfynydd

32 Noda'r FfDC: “Datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn, Wylfa Newydd a **Chefnogir Trawsfynydd mewn egwyddor** fel modd i greu buddion economaidd sylweddol i'r ardal ynghyd â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.”

*33.* ***“Mae Trawsfynydd yn safle posib ar gyfer Adweithydd Modiwlaidd Bach****, gan adeiladu ar y gallu a'r arbenigedd sector-benodol technegol sydd ar gael eisoes yn lleol a chreu parth twf newydd diwydiant niwclear. Mae'r safle mewn sefyllfa unigryw, ar ôl bod yn orsaf ynni niwclear o'r blaen gyda'r isadeiledd a'r sgiliau lleol angenrheidiol. Mae'r safle ym Mharc Cenedlaethol Eryri a dylai datblygiad mawr yma fod yn ddarostyngedig i'r egwyddorion ym Mholisi Cynllunio Cymru. Yn ystod y cam cynllunio manwl, bydd angen ystyried dyluniad ac effaith ar amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol gan gynnwys lliniaru posibl.”*

34. Dylid pwysleisio ar y dechrau bod croeso cryf i ddarparu safle sy'n darparu swyddi o ansawdd uchel mewn ardal lle mae’r cyflogau yn gymharol isel.

35. Fodd bynnag, o gofio bod *Cymru'r Dyfodol 2040* yn rhan o'r cynllun datblygu statudol, nid yw'n glir o gwbl pa statws sydd gan safle niwclear posib. Gall hyn arwain at ddryswch ac felly o bosibl oedi ymhellach i'r broses. Cyfeiriwyd yn gymharol niwlog at Trawsfynydd yn nrafft cyntaf yr FfDC. Erbyn hyn mae'n ymddangos bod hwn wedi dod yn gynnig ychydig yn fwy ffurfiol yn yr iteriad diweddaraf, gan nodi ei fod “yn safle posib ar gyfer Adweithydd Modiwlaidd Bach”. Mae nodi Trawsfynydd fel safle niwclear posib yn *Cymru'r Dyfodol 2040*, heb gyfeirio'n uniongyrchol at y prawf Datblygiad Mawr yn aneglur ar y gorau ac yn gamarweiniol ar y gwaethaf.

36. Awgrymir felly bod yr egwyddorion a nodir yn y Prawf Datblygu Mawr a Phrawf Silkin yn cael eu defnyddio (er ar lefel strategol) cyn nodi'r safle fel safle AMB posib yn *Cymru'r Dyfodol 2040*. Byddai hyn nid yn unig yn tynnu sylw at y prawf / polisi mae'n rhaid ei gymhwyso i ddatblygiad o'r fath, ond byddai hefyd yn rhoi syniad a allai cynnig o'r fath fodloni’r prawf hwn. Byddai hyn yn ffordd fwy tryloyw o gynnwys cynnig datblygu mor sylweddol mewn Parc Cenedlaethol.

**(b) Parth Twf Rhanbarthol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

37. Mae *Cymru'r Dyfodol*, fel y'i gosodwyd yn y Senedd, yn cydnabod rhanbarth Canolbarth Cymru fel rhanbarth ynddo'i hun, ac mae hyn yn cael ei groesawu a'i gefnogi. Fodd bynnag, ni allwn gytuno bod angen nodi Parth Twf Rhanbarthol yn Aberhonddu a'r cyffiniau. Waeth bynnag y lefelau twf a nodwyd i gefnogi'r dyhead hwn yn yr iteriad hwn o *Cymru'r Dyfodol*, mae gennym bryderon sylweddol y bydd hyn yn creu disgwyliad gan randdeiliaid am dwf ar lefelau ymhell y tu hwnt i allu amgylcheddol yr ardal mewn gwrthgyferbyniad uniongyrchol i bwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol. O ystyried y bydd twf economaidd yn y rhanbarth yn y dyfodol (fel y rhagwelir gan Bolisi 26) yn cael ei gyfarwyddo gan Gydbwyllgorau Corfforaethol (CC) yn y dyfodol a fydd yn eithrio cynrychiolaeth APC (mae'r rheoliadau drafft ar gyfer sefydlu CCau yn dangos y bydd APCau yn cael eu cynrychioli i'r graddau y mae Cynlluniau Datblygu Strategol yn unig o dan sylw) ond bydd ganddo awdurdodaeth dros ein hardal - mae ein pryder am sofraniaeth ein dynodiad wrth wneud penderfyniadau yn cynyddu.

38. Mae ein pryder yn cael ei waethygu ymhellach mewn perthynas ag asesu Aberhonddu a'r Parth Twf Ffiniau yn erbyn y Rheoliadau GCI (Gwerthusiad Cynaliadwyedd Integredig) a Chynefinoedd. Yma ar ôl asesu Polisïau 25: *Ardaloedd Twf Rhanbarthol Canolbarth Cymru a 26 Tyfu Economi Canolbarth Cymru,* sy'n cynnwys nodi parth twf

rhanbarthol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae Tabl 3.3. ar dudalen 75 o'r GCI yn dangos:

- canlyniadau negyddol / niweidiol ar gyfer amcanion cynaliadwyedd sy'n ymwneud â thirwedd a threfwedd, yr amgylchedd hanesyddol, bioamrywiaeth a geoamrywiaeth ac adnoddau naturiol; a
- canlynidau cadarnhaol a sylweddol gadarnhaol ar gyfer cyflogaeth a thwf economaidd.

Mae'r canlyniad hwn yn dangos gwrthdaro clir â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol ac mae'n arwydd clir bod angen gwaith pellach i ddatrys dull gweithredu'r cynllun tuag at Barciau Cenedlaethol.

39 Mae'r asesiad o'r polisïau hyn hefyd yn nodi bod ARhC yr FfDC wedi diystyru effaith andwyol ar safle Natura 2000 o ganlyniad i P25, P26 a P27. Nid yw'n glir sut mae hyn yn wir. Mae casgliad cyffredinol yr ARhC yn nodi:

40. Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol ar uniondeb o ganlyniad i weithredu polisïau FfDC (ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad) oherwydd:

- Mae Tabl 7 yr Asesiad Priodol yn nodi'r math o effeithiau a allai ddigwydd trwy weithredu'r polisïau ac yn nodi mesurau osgoi / lliniaru y mae'n rhaid cadw atynt wrth gynhyrchu cynlluniau a phrosiectau haen is i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000 / Ramsar.
- gofyniad cyfreithiol i gynlluniau a phrosiectau haen is i ymgymryd â ARhC.

*41.* Ac eto nid yw *Cymru'r Dyfodol - Cynllun Cenedlaethol 2040* yn cynnwys polisi manwl i sicrhau pob un o'r mesurau lliniaru a nodwyd yn Nhabl 7 y ARhC. Yn wir, mae testun y cynllun yn gwthio'r holl waith asesu ar haenau strategol a lleol o gynllunio datblygu: i bob pwrpas yn tanseilio cyflawni pob polisi yng *Nghymru'r Dyfodol - Y Cynllun Cenedlaethol.*

> ***Bydd angen i ddatblygiad yn y cynllun haen is neu'r cam prosiect ddangos nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar y nodweddion y mae safle Natura 2000 wedi'u dynodi ar eu cyfer, ac nid yw Cymru'r Dyfodol yn cefnogi cynlluniau neu brosiectau haen is lle na ddeuir i gasgliad ar hyn.***

42. Pryder mawr yw bod testun yn y cynllun yn cam-gynrychioli canfyddiadau'r ARhC.

> *Daw'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad, ar y rhagdybiaeth bod canfyddiadau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu mabwysiadu ar raddfeydd cynllunio haen is neu brosiectau, y gellir osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000* ***o ganlyniad i weithredu'r polisïau o fewn Cymru'r Dyfodol*** *(ychwanegwyd pwyslais).*

*43.* Sut all hyn fod yn wir pan fo'r ARhC yn nodi: *Nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon i nodi rhestr helaeth o'r holl gynlluniau a phrosiectau a allai arwain at effeithiau cyfuniad ynghyd â'r FfDC.*

44. Nid pwyntiau proses na chywirdeb yn unig yw'r gwahaniaeth rhwng canfyddiadau'r Asesiad o ran adrodd a'i gynrychiolaeth yn yr FfDC. Maent yn sylfaenol i'r ddealltwriaeth o gyflawniad yr FfDC o fewn fframwaith deddfwriaethol a pholisi ehangach sy'n ceisio amddiffyn ein hadnoddau naturiol mwyaf gwerthfawr.

## F. Cynlluniau Datblygu Strategol

45. Mae'r Prawf Datblygiad Mawr, a phrawf Silkin a Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Parciau Cenedlaethol y cyfeirir atynt uchod yn darparu cyd-destun clir sy'n ymwneud â graddfa'r datblygiad sy'n dderbyniol mewn Parciau Cenedlaethol.

46. Mae Cymru'r Dyfodol bellach yn nodi bod yn rhaid cynhyrchu Cynlluniau Datblygu Strategol ym mhob rhanbarth ac y bydd materion yn ymwneud â darparu tai, datblygu economaidd a graddfa a lleoliad twf yn faterion i CDSau ac nid CDLI ACLI. Mae gennym bryderon sylweddol y gallai datblygu cynaliadwy ein Parciau Cenedlaethol fod yn ystyriaethau ymylol o fewn CDS lle bydd difrifoldeb pŵer gwleidyddol y tu allan i gylch rheoli tirwedd ddynodedig.

47. Credwn y gallai'r cyfraniad y gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ei wneud mewn gwirionedd i gynhyrchu cynllun datblygu strategol fod yn werthfawr, yn amlwg gall fod meysydd lle gallai ac y dylai Parciau Cenedlaethol gyfrannu at lunio cynlluniau strategol ehangach, er enghraifft mewn perthynas â thrafnidiaeth gynaliadwy, cysylltiadau grid, seilwaith gwyrdd neu dwristiaeth. Fodd bynnag, dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r APC **ddewis ymuno (optio mewn**) i ardal Cynllun Datblygu Strategol, yn hytrach na chael eu cynnwys yn ddi-ofyn.

48. Credwn y bydd y cyfraniad y gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ei wneud mewn gwirionedd i gynhyrchu cynllun datblygu strategol gael ei leihau gan yr adnodd y byddai'n ei gymryd i wasanaethu eu creu. Er enghraifft, mae creu'r pedwerydd rhanbarth canolbarth Cymru yn golygu bod disgwyl i'r APCBB gynhyrchu adnoddau o dri CDS y bydd eu gwerth yn cael ei deimlo y tu allan i'w ardal yn bennaf..

49. Oherwydd pryderon ynghylch adnoddau a sgiliau priodol, rydym yn erfyn ar y pwyllgor i argymell bod pennod 5 o *Cymru'r Dyfodol* yn cael ei diwygio i sicrhau nad yw ardaloedd CDS yn cynnwys Ardaloedd Awdurdod Parciau Cenedlaethol yn awtomatig ac bod y pwyslais ar yr uchafiaeth o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol **llawn** mewn Parciau Cenedlaethol yn cael ei gadw.